

**Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
a gynhaliwyd yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian (Canolfan Dysgu a Datblygu)
ar ddydd Iau Mehefin 3^{ydd} 2010 am 3pm**

Yn Bresennol:

A Morris Jones	Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
N Gore	Cyfarwyddwr Safle Wylfa
G Vaughan	Yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear
D Simister	Yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear
L Jones	Magnox North Cyf
M Thornton	Magnox North Cyf
T Roberts	Magnox North Cyf
A Brooksbank	Magnox North Cyf
P Farrell	Magnox North Cyf
M Humphreys	Magnox North Cyf
J Milburn	Magnox North Cyf
A Hughes	Magnox North Cyf
A Hall	Dŵr Cymru
S Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Y Cyng. W T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. T Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
E Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
P H Capper	Swyddog Pysgodfeydd (Ynys Môn) Llywodraeth Cynulliad Cymru
D Alexander	Cymdeithas y Tirfeddianwyr
T Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
J H Jordan	Ffederasiwn y Busnesau Bach
R Hubbard	Trigolyn Lleol

Hefyd yn Bresennol:

H M Hughes	Partneriaeth Adfywio Amlwch (Cofnodion)
C Evans Thau Cymen	Partneriaeth Adfywio Amlwch (Cofnodion) Cyfieithu ar y Pryd

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

- 2472 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd wybod i'r aelodau am y drasiedi yn Cumbria a gofynnodd am funud o ddistawrwydd i gofio am y gweithwyr Sellafeld a gafodd eu lladd.
- 2473 Gofynnodd AMJ am anfon llythyr cydymdeimlo i Grŵp Rhanddeiliaid Safle Gorllewin Cumbria.
- 2474 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ieuan Wyn Jones (AC); T Conway (Cymdeithas Ymdeoledigion yr Wylfa); H Prosser (Llywodraeth Cynulliad Cymru); Y Fonesig Anglesey; S Roberts (Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr); M O'Hara (Cyn-weithiwr yn Wylfa sydd wedi Ymddeol); R Foxhall (Swyddog Cyfathrebu – Magnox North Cyf); Y Cyng. J V Owen (Cyngor Sir Ynys Môn); Y Cyng. Ken Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn) a J Grant (Magnox North Cyf); P Kennedy (Yr Asiantaeth Safonau Bwyd).

2 CYMERADWYO COFNODION Y CYFARFOD AR 11^{eg} MAWRTH 2010

- 2475 Nododd A M Jones fod copïau o'r cofnodion blaenorol wedi cael eu dosbarthu, gan gynnwys y newidiadau a wnaed.
- 2476 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan J H Jones; eiliwyd gan Y Cyng. T Jones.

3 MATERION YN CODI O'R COFNODION DIWETHAF

- 2477 Dim materion yn codi oni bai am eitemau ar yr agenda.

4 DERBYN ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y SAFLE

- 2478 Anfonwyd adroddiad Cyfarwyddwr y Safle gyda'r agenda cyn y cyfarfod.
- 2479 Amlinellodd N Gore brif faterion yr adroddiad. Nododd fod Wylfa, ar y 10^{fed} Ebrill 2010, wedi llwyddo i gyflawni blwyddyn heb Ddamwain Colli Amser, a oedd yn gryn gamp i'w chyflawni gan fod y safle'n cyflogi 650 o bobl yn ogystal â chontractwyr a gweithwyr asiantaeth (ASW). Enillodd y safle Fedal Aur Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (ROSPA) am y nawfed flynedd yn olynol.
- 2480 Eglurodd fod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda gyda Chyfnod Segur Adweithydd 2 (R2) a gychwynnodd ar 8^{fed} Ebrill 2010, ac roedd ar y trywydd iawn i'w gwblhau ar amser erbyn 15^{fed} Gorffennaf 2010. Hefyd, nododd fod nifer sylweddol o gontractwyr Cyfnod Segur R2 yn gorffen fis nesaf.

- 2481 Nododd fod rheoleiddwyr safle Wylfa wedi ymweld â'r safle sawl tro yn y misoedd diwethaf. Bu'r ymweliadau'n llwyddiant ac roedd Wylfa'n parhau i fod mewn sefyllfa gref i ymestyn ei chyfnod cynhyrchu y tu hwnt i fis Rhagfyr 2010.
- 2482 Eglurodd N Gore fod Cynhwysydd Haearn Bwrw Hydwyth Wylfa, a adwaenir gan amlaf yn y 'Blwch Melyn' wedi cael ei lenwi'n ddiogel ac yn llwyddiannus gyda Dysychwr Gwastraff Lefel Ganolig (ILW) ar ôl i'r achos diogelwch gael ei gymeradwyo gan Yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear (NII).
- 2483 Adroddodd N Gore y cynhaliwyd Adolygiad Llywodraethu Amgylchedd, Iechyd, Gwarchodaeth, Diogelwch ac Ansawdd (EHSS&Q) Magnox North Cyf, a nodwyd nifer o arferion da gyda dim ond ambell i eitem yn cael ei hychwanegu at y rhestr i gadw llygaid arnynt, sef y rhai hynny a awgrymwyd fesul safle.
- 2484 Nododd fod 916 o weithwyr/contractwyr/gweithwyr asiantaeth, cyn y cyfnod segur, wedi mynd i weld cynhyrchiad o 'The Mouse-hole' fel rhan o ymgyrch Iechyd a Diogelwch i sicrhau yr ymgymerir â'r Cyfnod Segur mewn ffordd ddiogel a saff, ac na fyddai'n achosi unrhyw niwed i'r amgylchedd. Roedd yr adborth yn dilyn yr hyfforddiant yn gadarnhaol iawn.
- 2485 I gloi, dywedodd N Gore fod perfformiad diogelwch Wylfa wedi bod yn ardderchog gyda gweithwyr wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni Cyfnod Segur Adweithydd 2 yn ddiogel.

5 DERBYN ADRODDIAD CADEIRYDD GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE

- 2486 Cyflwynodd A M Jones grynodedb byr o Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid.
- 2487 Eglurodd A M Jones fod Horizon Nuclear wedi eu syfrdanu gan ddiddordeb y cyfryngau ynghylch eu bwriad o ddatblygu Wylfa.
- 2488 Nododd A M Jones yr anfonwyd llythyr ar ran y Grŵp Rhanddeiliaid i longyfarch Albert Owen ar gael ei ailethol yn AS Ynys Môn.
- 2489 Rhoddodd A M Jones wybod i'r grŵp fod gwahoddiadau i ymweld â safle Wylfa wedi'u hanfon at Brif Swyddog Gweithredol newydd Yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear - Tony Fountain, yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Ynni a Newid Hinsawdd, Chris Huhne AS a'r Gweinidog Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, Charles Hendry AS.
- 2490 Hefyd, rhoddodd A M Jones wybod i'r grŵp fod Cyngor Sir Ynys Môn yn lansio'r strategaeth Ynys Ynni ar 18^{fed} Mehefin 2010.

6 YR AWDURDOD DADGOMISIYNU NIWCLEAR (NDA) – Y NEWYDDION DIWEDDARAF

- 2491 Dosbarthwyd copi o daflen briffio Rheolwr Rhaglen y Safle cyn y cyfarfod. Tynnodd G Vaughan sylw at y prif faterion yn adroddiad briffio'r NDA.
- 2492 Eglurodd G Vaughan fod Prif Swyddog Gweithredol yr NDA, Tony Fountain, wedi ailstrwythuro swyddogaethau'r tîm gweithredol gyda John Clarke yn y swyddogaeth newydd, sef Cyfarwyddwr Gweithredol Busnes a Chynllunio, a'r cyn Brif Swyddog Gweithredol, Richard Waite, yn Gyfarwyddwr Gweithredol Darparu.
- 2493 Nododd G Vaughan fod Wylfa, Oldbury a Maentwrog wedi cael ffigyrau cynhyrchu da iawn – 8Twh – dros y 12 mis diwethaf.
- 2494 Hefyd, rhoddodd wybod i aelodau fod Cynllun Busnes a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr NDA yn amlinellu gwariant arfaethedig o £2.8 biliwn ar gyfer 2010-2011 yn y 19 safle.
- 2495 Cafwyd adborth da yn negfed cyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol (NSG) ym Manceinion – cynhelir y cyfarfodydd hyn yn rheolaidd.
- 2496 Cafodd cytundebau masnachol newydd eu cwblhau rhwng yr NDA a Westinghouse Electric Company, a oedd yn ymwneud â phrydles tymor hir safle cynhyrchu tanwydd niwclear, Springfields, ger Preston, Swydd Gaerhirfryn.
- 2497 Nododd G Vaughan fod y drymiau olaf o dros 10,000 o ddrymiau Wraniwm Disbydd Magnox (MDU) wedi cael eu trosglwyddo ynghynt na'r disgwyl o safle Chapelcross, gan leihau perygl mawr.
- 2498 Oherwydd yr hinsawdd ariannol gyfyngedig bresennol, roedd yr NDA yn y broses o lunio rhestr fer o senarios effeithlonrwydd posib fel rhan o adolygiad gan y Llywodraeth yn gyffredinol, Rhaglen Gwerth Cyhoeddus (PVP), i ganfod dewisiadau gwerth am arian.

7 ADRODDIAD AROLYGYDD GOSODIADAU NIWCLEAR EM

- 2499 Yr oedd copi o'r adroddiad wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod.
- 2500 Eglurodd D Simister y cynhaliwyd cyd-arolwg o'r safle ar 2^{il} Mehefin 2010. Credai nifer o'r gweithwyr/contractwyr a fynychasai hyfforddiant diogelwch 'The Mouse-hole' ei fod yn ddefnyddiol, hyd yn oed 2 fis ar ôl yr hyfforddiant.
- 2501 Aeth D Simister ymlaen i adrodd am uchafbwyntiau canfyddiadau adroddiad 4ydd chwarter 2009/2010. Roedd yr NII yn parhau i ymgysylltu â thrwyddedeion i gefnogi'r achos diogelwch ar gyfer ymestyn cyfnodau cynhyrchu. Eglurodd D Simister fod Safle Wylfa wedi cyflwyno cynigion i'r NII ar gyfer sgôp cyfnod segur

R2 a bod bwriadau trwyddedeion yn gadarnhaol. Roedd hyder yr NII yn cynyddu mwy gydag arolygiadau safle rheolaidd.

- 2502 Eglurodd D Simister fod y gwaith parhaus o adfer Cell Storio Sych 4 yn bwysig. Roedd yr NII wedi croesawu'r cynnydd a wnaed gan Wylfa i symud nifer o elfennau tanwydd a oedd wedi'u difrodi o'r gell storio. Roedd yr NII yn hyderus gyda'r cynigion digonol o wneud addasiadau i'r cyfarpar adfer er mwyn hwyluso symud gweddill yr elfennau tanwydd ac roedd caniatâd wedi'i roi i gychwyn y gwaith hwnnw o fewn ychydig wythnosau.
- 2503 Cwblhawyd arolygiad cydymffurfio. Roedd y canlyniadau'n dangos y gallai'r safle gydymffurfio â'r rheolau gweithredu.
- 2504 Nododd D Simister fod yr NII a Safle Wylfa yn gweithio gyda'i gilydd ar nifer o wahanol ffrydiau gwaith. Roedd yr NII yn pryderu am 4 elfen diogelwch pwysig ac yn disgwyl i'r safle ddangos:
- 1) Ei fod wedi cwblhau'r trefniadau i ail-ddilysu Adolygiad Diogelwch Cyfnodol 2004 yn foddhaol.
 - 2) Bod trefniadau priodol ar waith i barhau gyda'r gweithredu y tu hwnt i 2010, h.y. y bobl iawn, offer sbâr strategol, y sefydliadau cywir ac ati.
 - 3) Ei allu i ddiwallu ymrwymadau yn Rhaglen Gweithredu Magnox (MOP) yr NDA, yn arbennig ei allu i dynnu tanwydd ar ôl gweithredu.
 - 4) Parhau i weithredu'n ddiogel.
- 2505 Gofynnodd y Cyng. T Jones am y risgiau a oedd ynghlwm â chadw tanwydd am gyfnod estynedig. Eglurodd D Simister fod yna wahanol fathau o danwydd mewn gwahanol leoliadau yn yr adweithyddion a oedd yn defnyddio tanwydd ar wahanol raddfeydd. Ni fyddai mwy o danwydd yn dod i'r safle, a byddai Wylfa'n cynnal gweddill y tanwydd am hyd y cyfnod cynhyrchu estynedig.
- 2506 Ychwanegodd N Gore fod yna tua 50,000 o elfennau tanwydd yn yr adweithyddion a fyddai'n para rhwng 7 a 9 mlynedd. Eglurodd y bu'n rhaid iddynt ddefnyddio'r tanwydd hwn yn ddoeth - byddai safle'r elfennau tanwydd yn newid yn yr adweithyddion er mwyn parhau i gynhyrchu, gan gynyddu'r defnydd. Ychwanegodd na fyddai unrhyw risgiau ynghlwm â gwneud hyn. Hefyd, cyfeiriodd y byddai'n wastraffus rhoi tanwydd newydd i mewn pan fyddai'r cyfnod cynhyrchu'n dod i ben, o bosib, ar ddiwedd 2012.
- 2507 Eglurodd G Vaughan fod rhai elfennau'n llosgi'n gynt nag eraill, ac y byddai'n bosib defnyddio'r tanwydd yn fwy effeithlon drwy adael elfennau penodol i mewn yn hirach. Yn achlysurol, gallai elfen ystumio rhywfaint drwy gael ei adael yn y craidd yn hirach, ond byddai'n parhau i fod o fewn y paramedrau diogelwch a ganiateir.

8 DIWEDDARIAD GAN IS-GRŴP ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL WYLFA

2508 Dosbarthwyd Cylchlythyr Cymunedol Wylfa yn y cyfarfod. Aeth J H Jones ymlaen i egluro am y ceisiadau llwyddiannus a oedd i'w gweld yng Nghylchlythyr Mehefin 2010.

9 DIWEDDARIAD GAN IS-GRŴP GWASTRAFF WYLFA

2509 Eglurodd M Thornton na fu fawr o ddatblygiad gyda'r Cynhwysydd Haearn Bwrw Hydwyth (DCI) ers ei ddiweddariad diwethaf; felly rhoddodd grynodedb ynghylch edrych tua'r dyfodol.

2510 Cododd M Thornton y mater o ailgylchu gwastraff gartref. Mae ailgylchu gwastraff yn cael ei gyflwyno yn y diwydiant niwclear o ran ailgylchu gwastraff ymbelydrol a deunyddiau gwastraff lefel isel.

2511 Hefyd, cododd M Thornton y mater o edrych ar ddeunyddiau eraill heblaw am wastraff dysychu ILW i'w cynnwys yn y DCI. Nododd y gallai rhai deunyddiau fod yn addas ar gyfer hynny, mewn symiau bychain; hefyd, eglurodd fod safleoedd eraill yn dilyn y syniad hwn ac efallai y dylai Wylfa ystyried gwneud yr un fath.

10 ADRODDIAD AMGYLCHEDDOL

2512 Dosbarthwyd copi o Adroddiad Amgylcheddol Blyneddol Wylfa cyn y cyfarfod.

2513 Eglurodd P Farrell fod yr wybodaeth yn cael ei chyfleu mewn cyflwyniad 20 munud fel arfer, fodd bynnag, roedd yr wybodaeth wedi'i chynnwys mewn adroddiad eleni er mwyn i bawb gael ei gweld.

2514 Eglurodd fod yr adroddiad yn tynnu sylw at flwyddyn lwyddiannus i Wylfa yn 2009, ac adlewyrchwyd hyn drwy gydnabod Cleddyf Anrhydedd 5 Seren Cyngor Diogelwch Prydain am lechyd a Diogelwch am yr ail flwyddyn yn olynol.

2515 Eglurodd P Farrell y daeth canfyddiadau i'r casgliad fod gollyngiadau ymbelydrol yn llai na 70% o'r Terfyn Blyneddol a bod gollyngiadau CO² wedi gostwng 45% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Eglurodd hefyd eu bod wedi llwyddo i gyflawni cyfradd ailgylchu o 90%.

2516 Nododd y cynhelir Rhaglen Monitro Amgylcheddol i archwilio ymbelydredd o amgylch y safle, a daeth i'r casgliad nad oedd y safle'n cael llawer o effaith amgylcheddol.

- 2517 Ychwanegodd D Simister y dylai P Farrell grybwyll y newid o Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 (RSA 93) i Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (EPR). RSA 93 yw'r ddeddfwriaeth sy'n caniatáu gwaredu symiau penodol o wastraff. Eglurodd fod amodau'r RSA 93 yn trosglwyddo i'r EPR ac nad oedd llawer iawn o newid. Erbyn hyn roedd yn drwydded i ddehongli'r dull ymarferol gorau o waredu gwastraff.
- 2518 Gofynnodd S Andrews a oedd unrhyw derfynau yn yr EPR fel yn yr RSA 93. Eglurodd P Farrell fod y terfynau fwy neu lai union yr un fath ac roedd yn seiliedig ar effeithiau a oedd yn benodol ar gyfer Wylfa. Gofynnodd S Andrews hefyd a oedd ar gael ar wefan gan ei bod am i'w chydweithwyr fod yn ymwybodol o'r adroddiad. Eglurodd L Jones y byddai ar gael ar y wefan yn ystod yr wythnosau nesaf.
- 2519 Roedd R Hubbard am longyfarch y swyddogion am baratoi llyfryn syml, a oedd yn llawn gwybodaeth.
- 2520 Ychwanegodd N Gore fod yr adroddiad yn un da iawn, ac y gallai safleoedd eraill ystyried posibilrwydd adroddiad Magnox yn gyffredinol. Eglurodd ei bod yn adeiladol cael adborth da a gobeithio y byddai cymunedau'n ystyried y llyfryn/adroddiad yn ddefnyddiol.
- 2521 Gofynnodd y Cyng. T Jones am effaith samplo llefrith o'r parth allanol. Eglurodd P Farrell fod y llefrith a gesglid o'r parth allanol ar sail radiws o 4-8km o'r safle ac nad oedd effaith fesuradwy ar y gymhareb ffermydd mewnol ac allanol.
- 2522 Ychwanegodd D Simister fod yr NII yn gweithio'n agos gydag adrannau/sefydliadau priodol megis Asiantaeth yr Amgylchedd o ran caniatáu trefniadau rheoleiddio diogelwch.

11 SESIWN FFORWM HOLI AC ATEB AGORED

- 5523 Gofynnodd y Cyng. T Jones a oedd unrhyw gefnogaeth ariannol gyhoeddus ar gael ar gyfer yr adeilad newydd.
Ychwanegodd A M Jones nad oedd aelodau Horizon Nuclear yn bresennol i ateb y cwestiwn penodol hwnnw, fodd bynnag, eglurodd N Gore, yn ei farn bersonol ef, na fyddai'r llywodraeth yn rhoi cymorthdaliadau ar gyfer unrhyw raglenni cynhyrchu ynni niwclear i'r dyfodol. Byddai'r holl gyllid yn dod gan gwmnïau preifat, yn achos yr adeilad newydd arfaethedig yn Wylfa, byddai RWE ac EON yn ariannu'r cyfanswm o tua £8 biliwn fyddai ei angen i adeiladu'r orsaf a'i gwneud yn weithredol. Hefyd, ychwanegodd fod llywodraeth bresennol y DU yn llwyr ymwybodol o'r bwch yn anghenion trydan y dyfodol ac y byddai'n rhaid i rywun lenwi'r bwch hwn. Ychwanegodd ymhellach y byddai cytundeb Copenhagen i ostwng allyriadau carbon deuocsid yn golygu fod cynhyrchu ynni niwclear yn ffordd dda o gyrraedd y targed hwn.

12 UNRHYW FATER ARALL

2524 Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

13 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

2525 Bydd y cyfarfod nesaf ar 7^{fed} Hydref 2010.

2526 Diolchodd A M Jones bawb am fynychu'r cyfarfod ac roedd yn falch o glywed yr holl newyddion cadarnhaol ynghylch Wylfa. Daeth y cyfarfod i ben am 4pm.